**STD 01-01(4)**

# CANLLAWIAU DIWYGIEDIG AR GOFRESTRU A DATGAN BUDDIANNAU'R AELODAU

## Diben

Gwahodd yr Aelodau i gytuno ar gynnig drafft, i'w drafod mewn Cyfarfod Llawn, ar ganllawiau diwygiedig ar gyfer Cofrestru a Datgan Buddiannau'r Aelodau.

## Cefndir

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol y cafodd y canllawiau ar gyfer Cofrestru a Datgan Buddiannau'r Aelodau eu diwygio. Mae Rheol Sefydlog 16 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad fabwysiadu'r canllawiau diwygiedig cyn y gellir eu cyhoeddi i bob Aelod, a'u rhoi ar waith. Mae'r Ysgrifenyddiaeth wedi sicrhau amser yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Chwefror i'r diben hwn.

## Y Cynnig sydd i'w Drafod

Mae'r cynnig canlynol wedi ei ddrafftio er mwyn cyflwyno'r Canllawiau:-

"Cynigiaf fod y Cynulliad yn mabwysiadu'r Canllawiau diwygiedig i Aelodau'r Cynulliad ar Gofnodi a Datgan Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar **XXX**"

Bydd y Trefnydd yn cyflwyno'r cynnig, gyda'r Cadeirydd yn traddodi'r araith agoriadol. Hysbyswyd pob Aelod o'r diwygiad arfaethedig i'r canllawiau, a rhoddwyd cyfle iddynt roi sylwadau. Rhagwelir felly na fydd dim neu prin ddim dadl ynghylch y cynnig.

## Argymhelliad

Argymhellir bod y Pwyllgor yn cytuno ar eiriad y cynnig drafft.

**Y Swyddfa Gyflwyno**

**Ionawr 2001**